

# Digwyddiad anghyffredin

*“Peidiwch â diffodd yr Ysbryd.” (adn. 19)*

## Beth am ddarlenn 1 Thesalonïaidd 5:12–28 ac yna myfyrio

Ddoe, bu inni ystyried un gwrthwynebiad i ddiwygiad, hynny yw bod yr Ysbryd wedi dod mewn grym ar ddydd y Pentecost a’i fod wedi gweithio yn yr eglwys ers y diwrnod hwnnw, ac o ganlyniad does na ddim angen i weddio am ailadrodd digwyddiadau’r Pentecost. Fel y gwelwyd pan fyddwn ni’n dangos yr adrannau hynny yn Llyfr yr Actau sy’n cofnodi sut y bu i’r Ysbryd ddod, ar achlysuron eraill, mewn grym mawr, maent am ddadlau fod hyn, yn wir, ddim ond er mwyn sefydlu’r eglwys. Wedi i’r eglwys gael ei sefydlu, neu dyna’r honiad, mae’r gwrthiau a’r ymddangosiadau goruwchnaturiol yma yn peidio ac mae’r Ysbryd yn ei amlygu ei hun mewn ffyrdd llawer mwy cyffredin.

Beth bynnag, yn ychwanegol at y gwaith cyffredin yma (maddeuwch y term) – gwaith fel aileni, sancteiddio, ac yn y blaen – mae hefyd ei waith goruwchnaturiol, y gwaith yr ydym ni’n ei alw yn ddiwygiad, gwaith anarferol. Mae’r bobl hynny y mae Duw wedi eu defnyddio yn y gorffennol i ddwyn diwygiad yn siarad amdano fel y gwaith anghyffredin yna o eiddo Duw oherwydd nid yw Duw yn Dduw cyffredin yn unig.

Mae eraill eto fyth yn gwrthwynebu gweddio am ddiwygiad ar sail y ffaith ein bod yn byw yn y dyddiau diwethaf ac mae’r Ysbryd Glân yn cael ei ddal yn ôl. Mae’r bobl sy’n honni hynny yn seilio eu dadl ar ddehongliad o 2 Thesalonïaidd 2. Mae’r bennod yma, yn ôl y bobl hyn, yn dangos y sefyllfa fydd yn codi yn y dyddiau diwethaf ac felly, mae’n dod i’r casgliad nad diwygiad fydd gwaith mawr Duw ond yn hytrach dyrchafiad yr hyn y mae Paul yn ei alw’n ‘ddyn anghyfraith’, a bydd pethau yn gwaethygu yn sylweddol cyn dyfodiad Crist. Yn sicr, mae hon yn adran anodd iawn i’w dehongli, ond ni ellir ei defnyddio i’n perswadio i beidio â gweddio am ddiwygiad. Mae’r rhai sy’n gwneud hynny yn dod yn agos, yn fy marn i, i wneud yr hyn y mae’r testun heddiw yn dweud wrthym ni am beidio â’i wneud, sef diffodd yr Ysbryd.

## Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Salm 51:11; Eسعia 63:10; Actau 7:51–53; Effes. 4:29–31

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd gofid Dafydd?
2. Sut y medrwn ddiffodd yr Ysbryd?

## Gweddï

O Dad, maddau ein hagwedd ein bod ni yn cyfyngu ar dy allu ac yn bodloni ar y cyffredin a thithau am ein tywys ni i brofi pethau anghyffredin. Maddau i ni ac adnewyddu ni. Yn enw Iesu. Amen.